GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

# Llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Chwefror 2005

**Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 114**

**Llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Chwefror 2005

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0821. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0820. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG114guidance). Gellir cael copïau o Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd hefyd, rhif cyfeirnod N0819.

**National Institute for Clinical Excellence**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-889-8

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Chwefror 2005
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffir yn ôl y galw

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Chwefror 2005. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 10 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 11 |
| Gwybodaeth bellach | 12 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig. Nid yw'r wybodaeth hon yn ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer emffysema datblygedig.

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint a pha mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a’r cleifion a’r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 12).

## Ynglŷn â llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig

Afiechyd ar yr ysgyfaint yw emffysema. Bydd waliau'r sachau aer yn yr ysgyfaint yn gwanhau ac yn ymchwalu, gan adael gofodau aer anarferol o fawr a fydd yn parhau'n llawn aer hyd yn oed pan fydd y person yn anadlu allan. Ni fydd yr ysgyfaint yn gallu cael cymaint o ocsigen i'r gwaed chwaith, felly gall y person deimlo'n flinedig iawn. Efallai fod llawdriniaeth lleihau maint yr ysgyfaint, sef y weithdrefn a gaiff ei hystyried yma, yn opsiwn ar gyfer pobl sydd â symptomau emffysema difrifol pan na fydd triniaethau eraill wedi gweithio'n dda. (Bydd pobl ag emffysema hefyd yn dioddef broncitis sy'n para'n hir yn aml iawn. Efallai y clywch y ddau gyflwr hyn yn cael eu disgrifio fel 'afiechyd rhwystr ysgyfeiniol cronig' neu COPD.)

Nod llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint yw tynnu y rhan o'r ysgyfaint nad yw'n gweithio cystal, fel y gellir canolbwyntio ar anadlu gyda'r rhan o'r ysgyfaint sy'n gweithio'n well.

Yn gyntaf, bydd meddygon yn defnyddio lluniau o'r ysgyfaint i weld pa ran ddylai gael ei thynnu allan. Yna, byddant yn gwneud agoriadau yn ardal y frest fel y gallant gyrraedd yr ysgyfaint. Ceir ffyrdd gwahanol o wneud hyn. Er enghraifft, gellir agor yr asgwrn sy'n rhedeg i

lawr canol y frest (gelwir hyn yn sternotomi canol). Neu gellir gwneud llawer o fân agoriadau ar ddwy ochr y frest fel y gall offerynnau llawfeddygol gael eu rhoi yn y frest rhwng yr asennau. Os defnyddir y llawdriniaeth hon, bydd y llawfeddyg yn defnyddio fideo i'w helpu i weld beth sy'n digwydd (gelwir hyn yn thoracoscopi â chymorth fideo). Ffordd arall o gyrraedd yr ysgyfaint yw drwy wneud agoriad rhwng yr asennau ar un ochr y frest a gwahanu'r asennau (gelwir hyn yn thoracotomi).

Pan fydd y llawfeddyg yn gallu cyrraedd yr ysgyfaint, caiff y rhan o'r ysgyfaint yr effeithiwyd arni fwyaf ei thynnu allan drwy ddefnyddio naill ai dyfais styffylu arbennig i dorri a selio meinwe'r ysgyfaint neu laser. Weithiau, defnyddir y ddwy ddyfais. Unwaith y caiff meinwe'r ysgyfaint ei thynnu, caiff yr ysgyfaint ei hail-agor a chaiff yr agoriad neu'r agoriadau yn y frest eu cau.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn astudiaethau, ymddengys bod llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint yn helpu rhai cleifion. Ar ôl y llawdriniaeth, roedd eu hysgyfaint yn gweithio'n well yn ôl pob tebyg ac roedd ganddynt well ansawdd bywyd.

Cymharodd un astudiaeth fawr yr hyn a oedd yn digwydd mewn cleifion a gafodd lawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint â chleifion a gafodd eu trin â meddyginiaethau. Ar ôl tua 2 flynedd, roedd 54 allan o 371 o bobl a gafodd lawdriniaeth yn gallu gwneud mwy o ymarfer corff nag yr oeddent cyn y llawdriniaeth. Mewn cymhariaeth, roedd 10 allan o 378 o bobl a oedd yn cymryd meddyginiaethau yn gallu gwneud mwy o ymarfer corff. Fel canrannau, y ffigurau hyn yw 15% ar gyfer y grŵp a gafodd y llawdriniaeth a 3% ar gyfer y grŵp a gymerodd feddyginiaethau – dengys profion ystadegol fod hyn yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Cafodd mwy o bobl yn y grŵp a gafodd y llawdriniaeth well ansawdd bywyd o'u cymharu â'r bobl a oedd yn cymryd meddyginiaethau (33% o gymharu â 9%). Ond nid effeithiodd y triniaethau gwahanol ar nifer y marwolaethau, a oedd yr un fath yn y ddau grŵp.

## Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr y gallai llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint helpu rhai cleifion arbennig, ond fod y manteision yn dueddol o leihau wrth i amser fynd heibio.

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Yn yr astudiaethau, y broblem fwyaf cyffredin a gafodd y cleifion oedd bod aer yn gollwng o'r ysgyfaint ar ôl y llawdriniaeth. Mewn un astudiaeth o 250 o gleifion, gwnaeth aer ollwng mewn bron i hanner y cleifion a barodd am fwy na 7 diwrnod. Roedd angen llawdriniaeth arall ar wyth o gleifion am fod aer yn gollwng. Y problemau eraill yn yr astudiaeth hon oedd:

- niwmonia, a ddatblygodd mewn 24 allan o 250 o gleifion
- trawiad ar y galon, a ddigwyddodd i 5 allan o 250 o gleifion
- thrombosis gwythïen ddofn (ceulad gwaed yn un o'r gwythiennau dwfn), a ddigwyddodd i 4 allan o 250 o gleifion)
- rhwystr yn y coluddyn bach, a ddigwyddodd i 6 allan o 250 o gleifion
- niwed i nerf cyfagos, a ddigwyddodd i 2 allan o 250 o gleifion.

Yn yr astudiaeth hon, bu farw 12 o gleifion tra roeddynt yn yr ysbyty. Ond mae'n bwysig cofio efallai fod rhai o'r problemau a gofnodwyd wedi digwydd oherwydd cyflwr meddygol y cleifion, yn hytrach nag o ganlyniad uniongyrchol i'r llawdriniaeth.

## Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod y problemau a allai ddigwydd gyda'r math yma o lawdriniaeth yn gyfarwydd iawn. Dywedasant mai'r prif broblemau oedd aer yn gollwng, haint ar y frest a methiant anadlol, sef pan fydd system anadlu'r corff yn rhoi'r gorau i weithio.

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar lawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint. Mae wedi argymell, pan fydd meddygon yn ei defnyddio ar gyfer pobl sydd ag emffysema datblygedig, dylent sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn mae'n ei olygu, y risgiau y bydd problemau'n codi, a'i bod yn bosibl na fydd y manteision byrdymor yn para
- bod y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth, a
- bod canlyniadau'r weithdrefn yn cael eu monitro.

Mae NICE wedi dweud ei bod yn bosibl y gallai'r llawdriniaeth achosi mwy o ddrwg na daioni i gleifion sy'n wael iawn ac nad yw eu hysgyfaint yn gweithio'n dda o gwbl. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod meddygon yn sicrhau mai dim ond i'r cleifion hynny sy'n debygol o gael budd o'r llawdriniaeth y dylid ei chynnig.

Yn olaf, mae NICE wedi dweud y dylai timau gofal iechyd sy'n cynnal llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint gynnwys meddyg sy'n arbenigo mewn trin cyflyrau sy'n ymwneud â'r frest, pobl sy'n arbenigo mewn helpu cleifion i wella o lawdriniaeth ysgyfeiniol a llawfeddyg sy'n arbenigo mewn llawdriniaethau ar y frest.

## Sylwadau eraill gan NICE

Defnyddir rhai llawdriniaethau eraill bellach i roi'r un effaith â llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint, ac nid yw'r rhain yn cynnwys agor y frest.

# Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig llawdriniaeth i leihau maint eich ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision ac yn bennaf risgiau llawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y rhain gyda chi, a dylai egluro efallai na fydd manteision y llawdriniaeth yn para'n hir. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau wedi'u disgrifio uchod.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar lawdriniaeth lleihau maint ysgyfaint ar gyfer emffysema datblygedig ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG114guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0819. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am emffysema ac afiechyd rhwystr ysgyfeiniol cronig, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Mae NICE hefyd wedi cyhoeddi arweiniad clinigol ar afiechyd rhwystr ysgyfeiniol cronig, sydd ar gael o www.nice.og.uk/CG012publicinfo.

Dyddiad: Chwefror 2005